| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 17 Ebrill 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Sgrinio Clyw Cyffredinol ar gyfer y Newydd-anedig** |

**Pwrpas**

1. Galluogi'r Pwyllgor i nodi'r cynigion i gyflwyno rhaglen sgrinio'r clyw ar gyfer pob baban sy'n cael ei eni i fenywod sy'n byw yng Nghymru.

**Cefndir**

2. Mae'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol (PSC) ar ôl ystyried y dystiolaeth berthnasol wedi cefnogi'r safbwynt bod rhaglen Sgrinio Clyw Cyffredinol yn y newydd-anedig (SCCN) yn bodloni'u meini prawf ar gyfer cyflwyno rhaglen sgrinio gan y GIG. Byddai rhaglen o'r fath yn sicrhau bod plant sy'n cael eu geni â nam difrifol ar eu clyw yn cael eu canfod yn gynharach nag y maent ar hyn o bryd.

3. Yn Lloegr, mae cynllun gweithredu peilot ar waith i asesu pa mor ymarferol yw cyflwyno SCCN yn y GIG. Dyrannwyd cyllidebau ar gyfer sgrinio ar 22 safle. Cynlluniwyd protocolau sgrinio cenedlaethol fel rhan o'r prosiect hwn.

4. Yng Nghymru, comisiynwyd Mr Clive Sparkes, Awdiolegydd Gwyddonol Ymgynghorol, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynhyrchu arolwg o'r rhaglenni Sgrinio Clyw yng Nghymru er mwyn paratoi ar gyfer y gweithredu dilynol yng Nghymru. Cwblhawyd yr Arolwg ym mis Hydref 2001 gan ddarganfod nad oedd yr oed ar gyfer darparu cymhorthion clyw wedi disgyn yn sylweddol ers yr 1980'au. Canlyniad y cynigion blaenorol i weithredu Rhaglen Sgrinio i Gymru gyfan ydoedd gweithredu mewn rhannau'n unig a mecanwaith methedig ar gyfer ei archwiliad. Gwnaeth yr Arolwg hwn argymell sefydlu prosiect ar gyfer Cymru gyfan i gynllunio a gweithredu SCCN yng Nghymru.

5. Mae tua 32,000 o enedigaethau bob blwyddyn yng Nghymru mewn 28 uned famolaeth. Amcangyfrifir y bydd tua 40 baban bob blwyddyn yn cael eu diagnosio â nam difrifol a pharhaol ar y clyw yn y ddwy glust. Mae darparu gwasanaethau addas i blant o'r fath yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn arwain at wella datblygiad iaith a datblygiad cyffredinol y plentyn a'r teulu.

6. Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddais y byddai gweithredu'r SCCN yn cychwyn yng Nghymru yn

2003/04. Bu modd i mi dynnu hwn ymlaen i 2002/03 fel rhan o'r £49 miliwn a gyhoeddais ym mis Ionawr ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

7. Ar yr un adeg cyhoeddais fy mhenderfyniad i sefydlu grwp arbenigol o randdeiliaid perthnasol i asesu effeithiolrwydd y rhaglen a'r strwythur mwyaf effeithiol ar gyfer cyflwyno rhaglenni gan gynnwys trefniadau archwilio, yn ogystal â sut y byddai'r gwasanaeth yn gweithredu yn y GIG diwygiedig ar ôl 2003. Gofynnais hefyd i'r grwp i drefnu trafodaethau rhwng y GIG ac addysg a gwasanaethau cymdeithasol i ystyried gwasanaethau cefnogol addas yn dilyn diagnosis.

8. Gwnaeth y Grwp Arbenigol gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Ionawr pan ddaethpwyd i'r canlyniad ei bod yn hanfodol bod yr SCCN yn cael ei gyflwyno fel rhaglen a gynlluniwyd ac a reolwyd yn genedlaethol. Gwnaeth argymell i mi y dylid gwahodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre i reoli'r prosiect gan fod profiad ganddynt o reoli prosiectau sgrinio cenedlaethol cyffelyb tra'n sicrhau bod gweithwyr proffesiynol o sefydliadau eraill yn cymryd rhan. Derbyniais y cyngor hwn a gwahoddais yr Ymddiriedolaeth i fesur posibiliadau'r prosiect i fwrw ymlaen â gweithredu'r SCCN.

**Y Sefyllfa Bresennol**

9. Derbyniais yn ddiweddar y papur cwmpasu oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac yr oedd yn nodi argymhellion ar gyfer trefniadau cwmpasu, gweithredu a rheoli'r cynllun yng Nghymru. Yr oedd hefyd yn cynnwys costau cychwynnol ar gyfer sefydlu a rhedeg y cynllun yn y dyfodol.

**Crynodeb o'r Argymhellion**

10. Cynigir bod rhaglen SCCN Cymru yn cynnwys yr holl fabanod a anwyd i fenywod sy'n byw yng Nghymru, er y cydnabyddir y bydd y trefniadau ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth ar gyfer babanod a anwyd mewn ysbytai yn Lloegr yn ddibynnol ar fodelau cyflawni ar ddwy ochr y ffin.

11. Mae SCCN yn cynnwys prawf cychwynnol, a bydd yn cael ei gynnig am yr eildro i'r babanod hynny sy'n methu'r prawf cyntaf. Bydd y babanod hynny sy'n methu'r ddau brawf cychwynnol yn cael cynnig math arall o brofion. Os methir y prawf hwn hefyd yna bydd angen asesiad awdiolegol manwl i benderfynu ar union natur a maint y nam ar y clyw. Bydd angen protocoliau sydd wedi'u haddasu ar gyfer babanod sydd mewn perygl uchel ac ar gyfer y rhai hynny sy'n symud ardal er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli unrhyw rhan o'r broses sgrinio.

12. Unwaith y bydd y broses weithredu wedi'i gwblhau, cynigir y dylai'r cyfrifoldeb ffurfiol ar gyfer rhaglen SCCN Cymru ymestyn o ddarparu'r wybodaeth mewn clinigau cyn geni hyd ddiwedd y broses sgrinio ac asesu os oes angen. Serch hynny, bydd llwyddiant y rhaglen yn dibynnu ar ddarparu ymyrraeth awdiolegol o safon uchel a'r driniaeth ddilynol, therapi lleferydd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Felly, bydd gan y rhaglen rwymedigaeth gychwynnol a pharhaus i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn eu lle ledled Cymru.

13. Mae trefnu'r sgrinio'r yn hanfodol er mwyn llwyddo. O ganlyniad cynigir y dylid cael un rhaglen sgrinio i Gymru gyfan gyda chyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglen yn cael yn glir. Mae'n bwysig bod llinellau nodi'n atebolrwydd clir ar gael drwy'r rhaglen a bod rolau unigol a sefydliadol o fewn y rhaglen yn cael eu diffinio'n glir. Cynigir felly y dylid sefydlu rhaglen SCCN i Gymru gyfan fel rhwydwaith clinigol a rheoli sy'n croesi ffiniau sefydliadol a phroffesiynol, gyda rheolaeth barhaus y rhaglen yn gorffwys gyda Chyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio, Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'r model trefniadol wedi cael ei brofi gyda'r rhaglen ar gyfer Sgrinio Ceg y Groth yng Nghymru

14. Cynigir y dylai Ymddiriedolaeth GIG Felindre sefydlu strwythur prosiect a fydd yn datblygu yn strwythur rheoli, wrth i raglenni ddechrau gweithredu yng Nghymru. Hyd yn hyn, nid yw manylion y strwythurau i reoli'r rhaglen ar lefelau lleol a chenedlaethol wedi eu diffinio. Serch hynny, er mwyn gwneud y mwyaf o'r synergedd rhwng rhaglenni SCCN a rhaglenni sgrinio eraill, a reolir gan Ymddiriedolaeth Felindre, y mae'n addas bod nifer o swyddogaethau a gwasanaethau cefnogi yn cael eu rhannu gan wahanol rhaglenni.

**Amseru**

15. Erbyn diwedd haf 2002 bwriedir y bydd y tim prosiect wedi ei sefydlu ynghyd â diffiniad o'i amcanion cyffredinol yn ogystal â sefydlu model gwasanaeth cyffredinol. Bydd wedi mynd i'r afael ag archwiliad o'r trefniadau addysg a gwasanaethau cymdeithasol presennol ac wedi cynhyrchu a chostio cynllun prosiect ffurfiol.

16. Y bwriad yw, erbyn diwedd Hydref 2002 y bydd system o ansawdd uchel wedi ei datblygu a fydd yn cynnwys safonau, protocolau a pholisïau i Gymru gyfan. Bydd wedi penderfynu ar anghenion gwybodaeth y rhaglen ynghyd â threfniadau monitro a gwerthuso. Yn ogystal bydd manylion y cyfrifoldebau unigol a sefydliadol wedi cael eu cwblhau. Ochr yn ochr â'r gwaith cynigir bod paratoadau ar gyfer gweithredu sgrinio gan gynnwys caffael offer; recriwtio a hyfforddi staff; sefydlu gwasanaethau cefnogi addas a chanfod adnoddau trin addas ar gyfer babanod a ganfuwyd gan y rhaglen ynghyd â sefydlu gweithio aml-asiantaeth gan adrannau perthnasol y llywodraeth.

17. Erbyn diwedd Mawrth 2003, bwriedir i'r rhaglen SCCN fod wedi cael ei gweithredu mewn o leiaf dwy ardal o Gymru (sy'n gyfystyr â 2 ardal awdurdod iechyd) gyda gweddill Cymru yn cael y rhaglen yn ystod 2003/04.

**Goblygiadau Ariannol**

18. Roedd y cyhoeddiad ym mis Ionawr 2002 o £49 miliwn ychwanegol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys darpariaeth o £0.75 miliwn i ddatblygu rhaglen SCCN yn 2002/2003. Cynghorwyd awdurdodau iechyd yn y nodiadau esboniadol i'r dyraniadau refeniw ar gyfer 2002-03 y byddai trefniadau manwl ar gyfer rheoli'r cyllid ar gyfer SCCN yn cyrraedd maes o law. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynnwys costau gweithredu'r prosiect a chostau'r rhaglen am ran o'r flwyddyn ar ôl gweithredu.

**Cydymffurfiaeth**

19. Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (Adran 1) yn cynnwys y ddyletswydd i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr a darparu neu sicrhau darpariaethau gwasanaeth. Mae Deddf 1977 (Adran 97) yn cynnwys y pwerau i wneud, cynyddu neu leihau'r cyfrannau i awdurdodau iechyd. Mae Deddf Awdurdodau Iechyd 1995 (Adran 47) yn cynnwys y pwerau i wneud cyfrannau i awdurdodau iechyd. Trosglwyddwyd yr holl bwerau hyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac fe'u dirprwywyd i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Camau i'w Gweithredu gan y Pwyllgor**

20. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**